CYNGOR GWYNEDD

SWYDD DISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD	Swyddog Datblygu Polisi - Gwasanaethau Cymdeithasol	**GRADDFA**	S4 pwyntiau 31-34

ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol	**GWASANAETH**	Busnes	**UNED**	Gofal Cwsmer

LLEOLIAD	Pencadlys	**RHIF SWYDD**	

ATEBOL I	Swyddog Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol
RHIF SWYDD	

PWRPAS Y SWYDD	1. Cyfrifol am arwain ar faes polisi Gwasanaethau Cymdeithasol 2. Cefnogi'r Tîm Rheoli, Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Strategol Polisi'r Cyngor i ddatblygu a mabwysiadau strategaethau, polisïau, canllawiau, protocolau a gweithdrefnau addas ar gyfer gwireddu cyfrifoldebau'r gwasanaeth, yn gynnwys cyfrifoldebau statudol.

CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)

Dim

PRIF DDYLETSWYDDAU A THASGAU ALLWEDDOL

1. Arwain ar gynnal awdit llawn o anghenion polisi y Gwasanaeth, ei adolygu yn rheolaidd a'i ddiweddaru yn flynyddol wedi hynny.
2. Cyfrifol am ddehongli a dadansoddi anghenion polisi'r Gwasanaeth gan ddatblygu polisïau etc… newydd a diweddaru rhai presennol yng nghyd destun strategol y Cyngor.
3. Darparu Cyngor arbenigol i Reolwyr ar y maes polisi a cydweithio yn agos a Rheolwyr i ddatblygu a chytuno ar gynnwys polisiau a phrotocolau.
4. Cefnogi'r broses Cynllunio Busnes yn barhaus drwy fwydo gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau yn y maes all effeithio'r Gwasanaeth e.e. deddfwriaeth
5. Sicrhau cydlyniad rhwng bolisiau etc… ar draws y Gwasanaeth, y Cyngor ac gyda Partneriaid.
6. Sefydlu trefn i sicrhau fod y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â pholisïau, cyfarwyddyd, strategaethau, deddfwriaeth ac ymarfer da cenedlaethol ar gael. Yn sgil hyn, trosi anghenion y Gwasanaeth i mewn i bolisïau, dogfennau gweithredol, canllawiau a phrotocolau lleol.
7. Sicrhau fod polisïau a dogfennaeth y Gwasanaeth yn gyfoes ac yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol a deddfwriaethol.
8. Sicrhau ansawdd a chysondeb polisïau o fewn y Gwasanaethau
9. Sefydlu mesuriadau a threfniadau i gefnogi monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd polisiau, strategaethau etc… y Gwasanaeth.
10. Cydweithio gyda chyfranddalwyr eraill i ddatblygu polisïau ar y cyd er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol.
11. Cynnal ymchwil i feysydd penodol er mwyn sicrhau fod polisïau'r Gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth.
12. Gweithio gyda Rheolwr Polisi Strategol i adnabod ymarfer da rhanbarthol a chenedlaethol gan ddefnyddio'r wybodaeth i ddylanwadu polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.
13. Cyfathrebu polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth i gyfranddalwyr mewnol ac allanol drwy ddefnyddio cyfres o wahanol ddulliau.
14. Ymgynghori ar ddatblygiad polisi fel bod defnyddwyr a chyfranddalwyr eraill yn cael mewnbwn i ddatblygiadau polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, drwy gydweithio gyda'r Swyddogion Gofal Cwsmer.
15. Cydweithio gyda'r Uned Datblygu Gweithlu i adnabod anghenion hyfforddi sydd yn deillio o bolisïau newydd.
16. Paratoi adroddiadau briffio i dimau rheoli ac Aelodau yn dilyn datblygiadau mewn deddfwriaeth neu bolisïau cenedlaethol.
17. Cyfrifol am gofrestr ganolog o holl ddogfennaeth perthnasol y Gwasanaethau, yn cynnwys polisïau, strategaethau, canllawiau, protocolau, gweithdrefnau.
18. Arwain ar ymatebion y Gwasanaeth i ymgynghoriadau cenedlaethol yn ymwneud ar maes Gofal.
19. Cynrychioli'r Gwasanaeth ar grwpiau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.
20. Sefydlu, Cydlynu a chyfrannu at grwpiau tasg penodol fel bo angen.
21. Comisiynu unrhyw waith pellach i gefnogi datblygiadau polisi y Gwasanaeth e.e. ymchwil ar faes penodol.
22. Sicrhau bod polisiau a phrotocolau'r Gwasanaeth yn cael eu datblygu a'u gwerthuso o fewn cyd-destun o chyd weithio corfforaethol a phartneriaethol. Bydd hyn yn golygu gweithio'n uniongyrchol a phartneriaethau eraill (partneriaid statudol, o fewn y Cyngor ac yng nghyd destun gwaith rhanbarthol / isrhanbarthol).
23. Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad
24. Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
25. Gweithredu o fewn polisi a gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
26. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill cyfatebol a rhesymol, sy'n cyd-fynd a lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.

AMGYLCHIADAU ARBENNIG (e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig, a.y.y.b.)

Bydd angen i weithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol.

I'w lenwi gan ddeilydd y swydd

LLOFNOD DEILYDD Y SWYDD		**DYDDIAD**	

LLOFNOD PENNAETH GWASANAETH		**DYDDIAD**	